

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020.

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog

11 Medi 2020

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi pwerau ychwanegol i awdurdodau lleol ledled Cymru mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i niferoedd achosion a lledaeniad syndrom anadlu aciwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys pwerau i awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- cau mangreoedd unigol neu osod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â defnyddio'r mangreoedd, mynediad iddynt neu nifer y bobl ynddynt;
- gwahardd digwyddiadau penodol (neu fathau o ddigwyddiadau) rhag cael eu cynnal neu osod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â chynnal y digwyddiad, mynediad iddo neu nifer y bobl a fydd yn bresennol;
- cyfyngu ar fynediad i fannau cyhoeddus yn yr awyr agored neu eu cau (neu fathau o fannau cyhoeddus yn yr awyr agored)

drwy gyhoeddi cyfarwyddiadau i bobl berthnasol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Byddai'r darpariaethau a gynigir yn caniatáu i awdurdodau lleol gyhoeddi cyfarwyddiadau a allai reoleiddio defnyddio mangreoedd, neu fynediad iddynt, neu eu cau, yn ogystal â stopio digwyddiadau rhag cael eu cynnal, ceir hefyd cyhoeddi cyfarwyddiadau er mwyn atal, neu gyfyngu ar fynediad i lefydd sy'n cynnig mynediad i'r cyhoedd. Byddai modd ymarfer y pwerau hyn, hyd yn oed pan fyddai'r rheini sy'n gyfrifol am y fangre neu'r digwyddiad yn cydymffurfio â'r gofynion o dan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 i gymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ledaenu neu o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, ond roedd ffactorau eraill yn golygu y gallai parhau i gadw'r fangre neu'r lleoliad ar agor neu gynnal y digwyddiad arwain at risg uwch o drosglwyddo'r feirws.

Er bod y Rheoliadau'n berthnasol i hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu mae'r ymyriad yn cael ei ganiatáu ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod teg, sef diogelu iechyd a cyhoedd a'u bod yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag ymarfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid gallu cyfiawnhau pob cyfyngiad a gofyniad o'r fath ar y sail eu bod yn ceisio cyflawni nod teg, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur. Mae'r darpariaethau hyn yn cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i fygythiad y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal yn gymesur i'r angen i osgoi cynnydd yng nghyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Bydd y Rheoliadau'n berthnasol, neu'n mae'n bosibl y byddant yn berthnasol, i hawliau o dan Erthygl 6 (yr hawl i gael treial teg); Erthygl 8 (yr hawl i barth at fywyd preifat a theuluol); Erthygl 9 (rhyddid crefydd, cydwybod a chrefydd); Erthygl 11 (rhyddid ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (mwynhau eiddo'n heddychlon). Mae Gweinidogion Cymru o'r farn i'r graddau y mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau'n berthnasol neu'n ymyrryd ar yr hawliau hynny bod cyfiawnhad dros yr ymyriad gan eu bod yn mynd ar drywydd nod teg sef darparu ymateb iechyd y cyhoedd i fygythiad cynnydd ym mynychder a lledaeniad y coronafeirws ar draws Cymru a'u bod yn gymesur i'r nod hwnnw.

Bydd awdurdodau lleol yn cael cyhoeddi cyfarwyddiadau dim ond pan fydd hynny'n angenrheidiol er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint y coronafeirws yn ardal yr awdurdod lleol a bod hynny'n gymesur i'r nod hwnnw. Rhaid i'r awdurdod lleol sydd wedi cyhoeddi'r cyfarwyddyd ei adolygu o leiaf unwaith bob saith niwrnod pan fydd mewn grym, ac os nad yw'n angenrheidiol nac yn gymesur mwyach, rhaid ei ddirymu. Ar ben hynny, caiff parti sydd â buddiant apelio yn erbyn unrhyw gyfarwyddiadau o'r fath gerbron llys ynadon.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu fangreodded os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb iddo. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu troseddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i'r "Gweinidog priodol". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol er mwyn rheoli mangreoedd, digwyddiadau a manau cyhoeddus yn eu hardal er mwyn helpu i reoli'r coronafeirws. Mae hyn yn cynnwys cau mangreoedd a manau cyhoeddus a stopio digwyddiadau pan fydd angen.

Mae Rhan 3 yn parhau â dyletswydd sydd eisoes wedi cael ei rhoi ar awdurdodau lleol, awdurdod Parc Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gau llwybrau troed cyhoeddus a thir sy'n hygyrch i'r cyhoedd yng Nghymru a allai ddenu nifer o bobl gan arwain at risg uchel o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer gorfodi'r cyfyngiadau neu'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau. Pan gredir yn rhesymol bod unigolyn 18 oed neu hŷn wedi cyflawni trosedd o dan y rheoliadau hyn, caiff unigolyn awdurdodedig – swyddog dynodedig awdurdod lleol, neu swyddog heddlu neu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (mewn perthynas â rhwystro swyddog, neu fethu â chydymffurfio â chyfarwyddyd neu gyfarwyddyd rhesymol a roddir gan swyddog polisi neu â hysbysiad gwahardd) – roi Hysbysiad Cosb Benodedig. Ar ben hynny, caiff unigolion a ddynodir gan awdurdod Parc Cenedlaethol neu Gyfoeth Naturiol Cymru ymarfer swyddogaethau gorfodi os yw'r awdurdod neu Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cau llwybr troed neu dir mynediad.

Pan fydd awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd, rhaid iddo roi gwybod i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo modd. Rhaid i hyn gynnwys copi o'r cyfarwyddyd, y rheswm dros roi'r cyfarwyddyd, y lleoliad neu'r ardal mae'r cyfarwyddyd yn berthnasol iddi, y sefydliadau a'r grwpiau o bobl y mae disgwyl i'r cyfarwyddyd effeithio arnynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw ynghylch y penderfyniad am y cyfarwyddyd, y dyddiad a'r amser pan ddaw'r cyfyngiad i rym, a'r dyddiad a'r amser pan ddaw i ben.

Daw'r Rheoliadau i rym ar ddechrau 14 Medi 2020.

Mae hi'n hanfodol cymryd pob cam rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws ymlaen. Ar 30 Ionawr 2020 roedd Sefydliad Iechyd y Byd wedi datgan bod y coronafeirws yn Argyfwng Iechyd Cyhoeddus o Bryder Rhyngwladol, ac mae camau'n cael eu cymryd ym mhedwar ban byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Mae Prif Swyddog Meddygol Cymru ynghyd â Phrif Swyddogion Meddygol eraill y DU yn parhau i asesu bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

5. Ymgynghoriad

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, gan gynnwys yr angen i lacio unrhyw gyfyngiadau nad ydynt bellach yn gymesur â'r ymateb hwnnw, ni fu ymgynghoriad

cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Drwy gydol y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad agos â swyddogion gorfodi awdurdodau lleol sydd wedi dweud bod angen y pwerau hyn pan fydd bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd yn bodoli ac nad yw'r pwerau cyfredol yn ddigonol. Er enghraifft gallai hyn fod pan fydd awdurdod lleol yn gwybod am ddigwyddiad sydd wedi cael ei gynllunio ac mae nifer y bobl y mae disgwyl iddynt geisio defnyddio gofod, neu natur digwyddiad penodol, yn golygu y byddai'n anniogel oherwydd y risg o drosglwyddo'r coronafeirws.

Gyda Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion ac i fusnesau drwy gydol y newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio sydd ar waith i ymateb i'r bygythiad parhaus sy'n deillio o'r coronafeirws. Dywedais mewn cynhadledd i'r wasg heddiw fy mod yn bwriadu darparu'r pwerau newydd i awdurdodau lleol

6. Asesiad effaith rheoleiddiol ac asesiadau eraill o'r effaith

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi cael ei baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar frys fel rhan o'r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae asesiad effaith integredig yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.